

Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLIN) Conwy 2018 – 2033



Newyddlen – Mai 2020



Rhwng mis Mehefin a mis Medi 2019 cynhaliodd y Cyngor ymgynghoriad ynghylch ‘**Strategaeth a Ffafir**’ y **Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLIN)**. Mae'r Strategaeth a Ffafir yn nodi'r materion allweddol, wedi'u hategu gan amcanion, gweledigaeth, lefelau twf a dosbarthiad, a'r safleoedd datblygu strategol allweddol. Mae'r Rhifyn hwn o'r Newyddlen ar gyfer mis Mai 2020 yn cynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf am y camau nesaf a'r paratodau ar gyfer y CDLIN i'w Archwilio gan y Cyhoedd, a hefyd yn ystyried effaith COVID 19 ar y gwaith o baratoi'r Cynllun.

Cytundeb/ Amserlen Cyflawni CDLIN Conwy – Effaith COVID 19



Mae **Cytundeb Cyflawni Conwy** yn nodi sut y byddwn yn llunio'r cynllun a'r amserlen a sut y gallwch chi fynegi'ch barn. Mae Llywodraeth Cymru bellach wedi cytuno ar y Cytundeb Cyflawni ac mae ar gael i'w weld ar wefan CDLIN y Cyngor www.conwy.gov.uk/cdlin/cc.

Y cam nesaf ydi ymgynghori ynghylch y CDLIN i'w Archwilio gan y Cyhoedd, a fydd yn digwydd fis Hydref 2020. Bydd COVID 19 yn effeithio ar y dyddiad cynlluniedig hwn, yn bennaf gan na all y tîm Polisi Cynllunio gynnal ymgynghoriad statudol neu gynnal asesiadau ac arolygon dyrannu safleoedd hanfodol. Bydd hefyd angen ymchwilio'n ofalus i asesiad pellach ynghylch effaith COVID 19 ar faterion polisi cynllunio economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. Fodd bynnag, mae mwyafrif y gwaith yn dal i ddigwydd o ran paratoi'r cynllun, ond bydd angen addasu'r amserlen. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr effaith hon ac wedi gofyn i CBSC gyflwyno amserlen ddiwygiedig ar gyfer cynhyrchu'r CDLIN. Byddwch yn cael eich hysbysu am y newidiadau hyn a phryd y bydd yr ymgynghoriad ar y CDLIN i'w Archwilio gan y Cyhoedd yn debyg o ddigwydd. Gallwch hefyd edrych ar dudalennau gwe'r CDLIN am yr wybodaeth ddiweddaraf.



Casglu Sail Tystiolaeth – Y Wybodaeth Ddiweddaraf

Rydym ni'n casglu llawer iawn o wybodaeth am Gonwy er mwyn ein helpu ni i adnabod y prif faterion sy'n wynebu ein cymunedau a sut gallwn gyfrannu'n gadarnhaol at oresgyn y materion hynny drwy'r CDLI. Ar hyn o bryd mae yna **50 Papur Cefndir** ar ystod o faterion (e.e. tai, cyflogaeth, twristiaeth, manwerthu, addysg, manau hamdden, yr amgylchedd naturiol a diwylliannol, cludiant cynaliadwy, newid hinsawdd, mwynau a gwastraff). Mae'r rhain ar wefan y Cyngor (www.conwy.gov.uk/cdlin) ac maen nhw'n cael eu diweddarau yn ôl yr angen. Yn ogystal â'r Papurau Cefndir hyn, rydym ni hefyd wedi dechrau gwaith newydd ar y sylfaen dystiolaeth, a fydd yn ein helpu ni i ddatblygu'r CDLIN i'w Archwilio gan y Cyhoedd.

1. **Asesiad a Dull Polisi Ail Gartrefi**
2. **Asesiad a Dull Polisi Isadeiledd Gwyrdd**
3. **Tuag at Gonwy Ddi-Garbon a Dull Polisi**
4. **Adolygu'r Asesiad Ynni Adnewyddadwy**
5. **Asesiad Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr**
6. **Asesiad a Dull Polisi Mannau Hamdden**
7. **Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg**
8. **Asesu'r Effaith ar Iechyd**
9. **Asesiad Cydraddoldeb a Lles**

Dyranid Safleoedd – Y Wybodaeth Ddiweddaraf



Rydym ni wedi cynnal 'galwad am safleoedd' i annog perchnogion tir i gyflwyno safleoedd datblygu posibl yn y fwrdeistref sirol. Mae'r Strategaeth a Ffafir hefyd yn cynnwys 5 safle strategol i ddiwallu eich anghenion datblygu yn ystod oes y cynllun yn Llanfairfechan, Llanrhos, Hen Golwyn, Abergele a Llanrwst. Bydd y safleoedd hyn yn symud ymlaen i'w Harchwilio gan y Cyhoedd. Fodd bynnag, bydd angen gwneud nifer o ddiwygiadau i ystyried tystiolaeth newydd a galwadau am gyfleusterau a gwasanaethau cymunedol. Rydym hefyd wedi asesu pob un o'r safleoedd eraill a fydd yn cael eu cynnig yn y CDLIN i'w Archwilio gan y Cyhoedd i gwrdd â'ch anghenion datblygu cymunedol. At ei gilydd, bydd tir a dynodiadau yn cael eu cyflwyno yn y Cynllun i'w Archwilio gan y Cyhoedd i ganiatáu a chefnogi tua 4500 o gartrefi newydd, 1800 o swyddi newydd, 2000 o dai fforddiadwy, twristiaeth, yr amgylchedd naturiol, yr amgylchedd hanesyddol, cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol (e.e. manwerthu, addysg, iechyd manau hamdden), ynni adnewyddadwy a newid hinsawdd a chludiant cynaliadwy a mwynau a gwastraff.



Adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd Integredig – Diweddariad

Mae'r Arfarniad o Gynaliadwyedd Integredig yn broses barhaus, drwy gydol y gwaith o gynhyrchu'r CDLIN. Mae'r cam cyntaf bellach wedi'i gwblhau. Mae'r arfarniad yn sicrhau fod unrhyw effeithiau posibl ar y gymuned a chynaliadwyedd yn cael eu hystyried yn llawn ac yn newid y cynllun er gwell.

Yr Ymgynghoriad ynghylch Strategaeth a Ffafir y CDLIN



Cynhaliwyd yr ymgynghoriad am 8 wythnos rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2019. Cynhaliwyd nifer fawr o sesiynau galw heibio a chyflwyniadau ar draws y fwrdeistref sirol a hoffem ddiolch i bawb a ddaeth iddyn nhw a chyfrannu. Cawsom lawer iawn o sylwadau ac awgrymiadau, ac rydym ni wedi adolygu'r rhain ac ymateb i'r pwyntiau a godwyd. Diolch i chi gyd am gymryd rhan. Gallwch weld rhain yn **Adroddiad Sylwadau Strategaeth a Ffafir y CDLIN** gan y Cyngor www.conwy.gov.uk/cdlin. Bydd nifer o'r sylwadau a dderbyniwyd yn arwain at gynnwys newidiadau ac ychwanegiadau i'r Cynllun i'w Archwilio gan y Cyhoedd.



Cadwch eich llygaid ar agor – Ymgynghoriad ar y CDLIN i'w Archwilio gan y Cyhoedd

Y cam nesaf ydi paratoi ac ymgynghori ynghylch y CDLIN i'w Archwilio gan y Cyhoedd. Rydym bellach yn tynnu at derfyn y gwaith hwn, ond bydd oedi'n digwydd yn sgîl cyfyngiadau COVID 19. Fel uchod, cadwch lygad ar wefan y CDLIN i gael y wybodaeth ddiweddaraf am amserlenni. Bydd y CDLIN i'w Archwilio gan y Cyhoedd yn mynd ymhellach na'r Strategaeth a Ffafir ac yn cynnwys polisiâu yn seiliedig ar feini prawf penodol a dyranidau tir arfaethedig newydd. Wrth baratoi'r CDLIN i'w Archwilio gan y Cyhoedd byddwn yn gweithio'n agos gyda'r gymuned a'r gwasanaethau Isadeiledd i sicrhau bod y cyfleusterau allweddol yn cael eu cynllunio ochr yn ochr y twf am dai a chyflogaeth (e.e. meddygfeydd, ysgolion, llyfrgelloedd ac ati).

Cynlluniau Lleoedd

Gall Cynllun Cynefin, wedi ei baratoi gan gymunedau lleol, fod yn ffordd gadarnhaol i ymgysylltu â chynlluniau ar gyfer datblygiadau'r dyfodol, gan ychwanegu eich manylion lleol i'ch CDLI.

Gellir mabwysiadu Cynllun Cynefin gan yr Awdurdod Lleol fel Canllaw Cynllunio Atodol (CCA), gan roi grym iddo yn y system gynllunio, sy'n golygu:

- mewnbwn gan yr awdurdod lleol
- sail tystiolaeth gref
- lefel dda o ymrwymiad y gymuned

Gall Cynllun Cynefin fel Canllaw Cynllunio Atodol (CCA) ddelio â materion sy'n berthynol i ddefnydd tir, datblygu a'r amgylchedd adeiledig megis tai newydd, gwella canol pentref neu dref, dyluniadau adeiladu a chymeriad lleol, iechyd a lles, manau agored, cyflogaeth leol, cyfleusterau lleol. Trwy baratoi Cynllun Cynefin gall eich cymuned er enghraifft:

- osod paramedrau lleol ynghylch yr hyn y credwch chi ddylai ddigwydd, er y gorau, ar safle a ddewiswyd i'w ddatblygu yn y CDLI
- neu efallai ddod o hyd a hyrwyddo safle bach i'w ddatblygu na sylwyd arno gan y cynllun lefel uwch
- awgrymu canllawiau dylunio manwl sy'n sensitif yn lleol ar gyfer yr ardal lleol

Bydd yr hyn a roddwch yn eich Cynllun Cynefin yn dibynnu ar amryw o ffactorau, yn cynnwys yr hyn sydd eisoes yn y CDLI, natur yr ardal dan sylw ac uchelgeisiau'r gymuned. Gall eich Cynllun Cynefin fod yn eang neu ddelio ag un neu ddau fater yn unig. Gall fod yn fanwl neu'n thematig.

Am fwy o wybodaeth ar gyfer Cynlluniau Lleol a sut mae nhw'n gallu helpu ewch i

www.placeplans.org.uk/cy/

